

Y Garn ar y We


Mae'r Swyddogion wedi penderfynu sefydlu gwefan yn arbennig ar gyfer y Garn.

Trwy'r wefan yma, gobeithiwn roi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y capel - manylion am yr amrywiol weithgareddau a chymdeithasau sy'n cael eu cynnal yn y Garn, crynodeb o hanes y capel, a cheisio cynnig ffordd newydd i unrhyw un ddod i gyswllt â'r dystiolaeth Gristnogol rydyn ni'n ceisio ei chyflwyno yma yn yr eglwys.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu syniadau am bethau i'w cynnwys ar y wefan, neu os ydych yn barod i helpu gyda chynnal y wefan mewn unrhyw ffordd, yna cysylltwch â Dewi Hughes, Marian B Hughes neu unrhyw un o swyddogion y capel.

Os oes gennych gamera digidol, a fydddech chi'n fodlon tynnu lluniau i'w cynnwys ar y wefan?

Byddem yn arbennig o falch o glywed oddi wrth blant neu bobl ifanc yr Eglwys - oes gennych chi syniad am dudalen a fyddai'n apelio at yr ifanc ac yn barod i'n helpu i'w dylunio? Mae croeso i chi gynnig eich awgrymiadau!



Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 12 Medi i:

Mr Dewi G Hughes

Bod Hywel

(828026)

dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes

14 Maes y Garn

(828662)

marian\_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 14

Haf 2004



## Gweinidog

Parch R W Jones

Haddef

6 Maes Afallen

Bow Street

(01970 828006)

## Ysgrifennydd

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street

(01970 828147)

### *Gair gan y Gweinidog*

Mae 'Gair o'r Garn' o hyd yn gorfodi rhywun i gymryd 'stoc' fel petae – edrych yn ôl ac edrych ymlaen. Wrth edrych yn ôl, daw dau ddigwyddiad o bwys i'r cof. Y cyntaf yw'r Gymanfa Ganu Undebol yn Aberystwyth. A ninnau wedi bod yn poeni am barhad Cymanfa Ganu'r Garn, wele'r Gymanfa ar ei newydd wedd. Na foed i unrhyw ymlyniad wrth ddoe ein rhwystro rhag cefnogi'r fenter newydd a bod yn rhan o gynulleidfa fwy.

Y digwyddiad arall oedd darlith y Parch Eifion Evans ar y testun 'Diwygiad '04-'05'. Roedd dros gant yn y gynulleidfa a ddaeth ynghyd ar noson waith i glywed am 'fawrion weithredoedd Duw' yma yng Nghymru ganrif yn ôl. Y teimlad, wedi bod yno, oedd dyhead yr emynydd:

O na ddoi'r nefol wynt  
i chwythu eto,  
fel bu'n y dyddiau gynt  
drwy'n gwlad yn rhuthro.

Daliwyd rhai o'n haelodau yn y chwithdod o golli anwyliaid, a threuliodd eraill gyfnod yn yr ysbyty. Boed iddynt oll brofi o nerth a diddanwch Duw.

Wrth edrych ymlaen, fe welwn gyfnod o wyliau i lawer, cyfnod o adennill nerth ac ail-ennyn brwdfrydedd er mwyn bod yn barod ym mis Medi i wynebu cyfnod arall o weithgarwch yn ein heglwys.

*Robert W Jones*

Ym 1982 dychwelodd Gunther i gwblhau'r gwaith ar y ffenestri, ac y mae un ohonynt yn dangos Gabriel yn cyfarch Mair, a Mair yn ymweld â'i chyfnither Elisabeth. Mae'r ffenest fwyaf oll yng nghefn yr eglwys yn dangos y Croeshoeliad a golygfeydd eraill o fywyd Crist. Mae'r un leiaf uwchben y drws deheuol yn dangos lladd y plant a'r ffoi i'r Aifft. Ac y mae'r ddwy ffenest olaf i'w gosod yn portreadu'r Forwyn Fair ac Oen Duw.

Chwe mis cyn ei farw yn Nhachwedd 1989 yn 62 oed, daeth Gunther a'i deulu i oedfa cysegru'r ffenestri gan George Carey, esgob Caerfaddon a Wells bryd hynny, a dywedodd iddo lunio'r ffenestri i ddiolch am gael ei arbed, ac i ddangos ei werthfawrogiad o garedigrwydd mawr pobol Dwyrain Chinnock. A chan iddo ychwanegu bod y cyfan yn weithred o gymodi gelynyion yng nghyfnod rhyfel, mae'n dda cofio geiriau Paul yn ei Ail Lythyr at y Corinthiaid: 'Y mae Duw wedi ymddiried i ni weinidogaeth y cymod'. A chofio hefyd eiriau Iesu: 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr', a cherdd fawr Waldo Williams, a aned gan mlynedd i Fedi 30, a'r geiriau yma yn arbennig:

Gwyn eu byd, daw dydd a'u clyw  
Dangnefeddwyr, plant i Dduw'.

W. J. Edwards

Dymuna Dwysli, Arwel, Gwen, Dwynwen a Sioned ddiolch yn arbennig i'r Parchedig Robert Williams Jones am ei holl garedigrwydd a'i gymorth yn ystod yr amser anodd yma o golli John.

Hefyd i'r Parchedigion Elwyn Pryse, W. J. Edwards, Elfed ap Nefydd Roberts ac Alun Tudur am eu cyfraniad yn y gwasanaeth; Mr Trefor Evans am fod mor drefnus gyda'r trefniadau; blaenoriaid y Garn am eu presenoldeb a'u cymorth ddydd yr angladd; Dr John Rowlands am ei wasanaeth ar yr organ; Mrs Nest Davies am drefnu'r blodau; i Ferched y Garn am ofalu am y lluniaeth, a Mr a Mrs Cole, gofawyr y Capel.

Gwerthfawrogn eich gwasanaeth oll; diolch o waelod calon.

## Ffenestri Cymod


Pan fyddaf yn mynd i weld Siân, chwaer Gwenda, a'i theulu yng Ngwlad yr Haf, byddaf yn hoffi oedi yn Eglwys y Forwyn Fair, Dwyrain Chinnock, i fyfyrion ar neges y deg ffenest liw sy'n harddu'r addoldy hynafol.

Yn ôl ym 1944, pan saethwyd un o awyrennau'r Luftwaffe i lawr ger Southampton, un o'r rhai a gymerwyd yn garcharor oedd Gunther Anton, llanc deunaw oed o Leonberg, ger Stuttgart. Wedi bod mewn gwersyll ger Yeovil, cafodd Gunther hawl i fyw a gweithio ar fferm yn Nwyrain Chinnock, a bu yno am dair blynedd. Cafodd groeso mawr gan yr ardalwyr a chartre da gan y ffermwyr a'i deulu, a byddai'n mynd gyda nhw'n gyson i'r eglwys i addoli.

Byddai'n mynd yno ar ei ben ei hun hefyd i fyfyrion a gweddïo, ac yn ystod yr ymweliadau yma, penderfynodd y buasai'n llunio ffenest liw i'w gosod yn yr eglwys os câi ddychwelyd at ei deulu. Digwyddodd hynny wedi iddo gael ei ryddhau ym 1948, ac yntau'n cael ymarfer ei grefft unwaith eto yng ngweithdy gwneud ffenestri lliw ei dad.

Ym 1962, fe ddaeth Gunther a'i ffenest gyntaf i'r eglwys, ffenest yn dangos golygfeydd o fywyd Crist a'i Esgyniad. Dylchwelodd eto ymhen pum mlynedd gyda ffenest yn dangos Iesu'n faban yng nghôl ei fam ac yn frenin. Ym 1969 daeth â rhagor o ffenestri i'r eglwys, un yn portreadu'r pedwar Archangel: Gabriel, negesydd Duw; Mihangel, cynorthwydd y Bobol Etholedig; Raphael, angel iacháu; ac Wreia, angel barn a thrugaredd. Mae un arall yn dangos iacháu'r cardodyn cloff, y wraig a gyffyrddodd ag ymyl gwisg Iesu, ac atgyfodiad merch Jairus.

## Myfyrdod



Hollalluog Dduw, yn yr awr dawel hon, ceisiaf gymundeb â Thi. Dymunaf droi o'r neilltu yn awr, oddi wrth bwys a gwres y dydd, oddi wrth dwrf terfysglyd y byd, oddi wrth glod ac anghlod dynion, oddi wrth feddyliau cymysglyd a dychmygion ofer fy nghalon fy hun, i geisio tawelwch dy bresenoldeb.

(John Baillie)

Yn y dwys ddistawrwydd  
Dywed air, fy Nuw;  
Torred dy leferydd  
Sanctaidd ar fy nghlyw.

(Nantlais)

Arglwydd, weithiau rydym yn rhy falch i wrando, darostwng ni.  
Weithiau, rydym yn rhy hunandybus i ufuddhau, maddau i ni.  
Weithiau, rydym ni ofn addo gormod, rho ddewrder i ni.

(Gair y Dydd)

Dduw sanctaidd, nid f'ewyllys i ond dy ewyllys di a wneler.  
Dyro i ni ddoethineb i weld ein heddiw yn gyfrwng i greu dy yfory.  
A'n hyfory yn gerrig milltir ar daith bywyd.  
Cadw ni yn bererinion disgwylgar.  
Pan fyddom yn tybio ein bod wedi cyrraedd y man lle dymuni i ni fod,  
cod ein golygon i weld y copaon uwch sydd eto o'n blaenau.

(John Ll. Humphreys)

Anfonodd Iesu fi i'r byd i wneud ei waith  
a gwneud yn siwr y daw ei deyrnas ef yn ffaith.

Nid gwaith angylion yw troi byd o boen a braw  
yn fyd o gariad pur a heddwch ar bob llaw;

Anfonodd Iesu fi i wir ryddhau ei fyd,  
O Dduw, rho help im wneud d'ewyllys di o hyd. Amen.

(Emyn traddodiadol o Cuba)

## Gorffennaf

2 Barbeciw ar fferm Penycefn  
o 6.30 o'r gloch ymlaen  
(Cynhelir ar y cyd â Gŵyl Treftadaeth  
Llandre)



4 Tad John Fitzgerald  
Ms Bronwen Morgan

11 Dr Gwyn Davies  
Parch Roger Thomas

18 Bugail – Cymun yn oedfa'r hwyr

25 Parch J E Wynne Davies  
Bugail

## Awst

1 Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore – Parch Roger Thomas  
Oedfa'r hwyr yn y Garn – Parch Tudor Davies

8 Noddfa yn uno yn y Garn  
Bore – Parch Richard Lewis  
Hwyr – Parch Pryderi Ll Jones

15 Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore – Parch Irfon Evans  
Oedfa'r hwyr yn y Garn – Parch J E Wynne Davies

22 Noddfa yn uno yn y Garn  
Parch Lewis Wyn Daniel

29 Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore – Miss Beti Griffiths

## Medi

5 Parch J R Jenkins

12 Parch L W Daniel  
Mr Arwyn Pierce

19 Bugail – Cymun yn oedfa'r bore  
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

26 Parch Gordon MacDonald

Carwn ddiolch i'r aelodau a ddaeth i Fethlehem, Llandre, i'm  
cefnogi ar noson cofio J. T. Rees ym mis Ebrill. Cafwyd canu  
da a thipyn o hwyll!

Diolch yn arbennig i Rhun a Gwern Penri, Mrs Eirwen  
Hughes, Pencwm, ac R. W. Jones, ein Gweinidog.

Gaenor Hall

Carreg Afon

Carwn ddiolch i bawb ohonoch am eich cardiau, blodau a'r  
consŷrn a ddangoswyd tuag ataf yn ystod fy salwch, ac yn  
arbennig felly am eich gweddïau trosaf. Bu'r cyfan yn gysur  
mawr imi. Diolch am gynhesrwydd cyfeillach yr Eglwys.

Bellach, edrychaf ymlaen at fod yn ôl yn eich plith.

Alwen